Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

11/12/25

**Annwyl Rieni,**

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i chwi oll am gefnogi cyngherddau Nadolig wythnos yma- roedd hi'n braf gweld Capel Bethania yn llawn ar gyfer Gwasanaethau'r Uned dan 7 a 9 ac roedd neuadd yr ysgol yn orlawn ddwywaith ar gyfer Sioe'r Uned dan 5 hefyd. Mae plant yn derbyn gymaint o brofiadau gwerthfawr wrth berfformio. Hoffwn ddiolch hefyd i staff am eu holl waith caled yn paratoi. Edrychwn ymlaen rŵan at Sioe Nadolig Blwyddyn 5 a 6 sy'n cael ei gynnal yn neuadd yr ysgol, dydd Mawrth nesaf, 16eg o Ragfyr am 2yp ac eto am 6.00yh.

Gair i atgoffa rhieni plant Blwyddyn 5 a 6 fod tocynnau i'w brynu ar Parent Pay- cofiwch archebu eich tocynnau cyn y diwrnod.

**Cinio Nadolig yr Ysgol**- Cawsom hwyl yn dathlu'r Nadolig wrth i blant fwynhau'r cinio arbennig heddiw- grefi, twrci a sbrowts- be well! Diolch am gefnogi. Braf oedd gweld pawb yn eu siwmperi Nadolig hefyd- Hwyl yr Ŵyl go iawn!

Dyma rannu ychydig o weithgareddau ysgol wythnos nesa- ffordd hwyliog i gloi gweithgarwch a phrysurdeb y tymor

**WYTHNOS OLA'R TYMOR- Gweithgareddau**

Dydd Llun, Rhagfyr 15fed- (pm) Plant Blwyddyn 4 yn mynd i Lys Awelon i ganu carolau ac i sgwrsio efo'r preswylwyr

Dydd Mawrth, Rhagfyr 16eg- Sioe Nadolig yr Uned dan 12.

Dydd Mercher, Rhagfyr 17eg- (bore) Sioe Hud a Lledrith i'r plant gyda Proffesor Llusern

Dydd Iau- Rhagfyr 18fed- Ymweliad i'r ysgol gan gwmni 'Mulod Moel Famau

Dydd Gwener, Rhagfyr 19eg- Diwedd tymor.

Dydd Llun, Ionawr 5ed, 2026- Diwrnod HMS i staff (Ysgol ar gau i blant)

**Hetiau-** Mae cwmni Brodwaith, Pentrefoelas wedi cynhyrchu 100 o hetiau bobl swyddogol ar gyfer Ysgol Pen Barras ac maent ar werth o'r swyddfa. Pris: £10 yr un. Gallwch archebu drwy Parent Pay. Os werthwn allan cyn diwedd tymor, byddwn yn edrych i gael cyflenwad arall ohonynt yn fuan yn y flwyddyn newydd. Diolch yn fawr i'r GRHA am drefnu'r archeb yma.

**Carol yr Ŵyl**- Braf oedd gweld darllediad prynhawn ddoe o'r côr ysgol yn canu'r garol newydd 'Yr Anrheg Orau Un'- gan Mrs Elin Owen a Mr Phillips ar raglen Prynhawn Da. Pob lwc i'r côr yng nghystadleuaeth Carol yr Ŵyl.

**Parcio-** Mae wedi dod i'n sylw fod nifer o gerbydau yn parcio yn ei meysydd parcio anabl ar ddechrau a diwedd dydd. Gofynnwn yn garedig i chwi gadw'r gofod yma i ddeilwyr bathodynnau glas yn unig. Diolch o flaen llaw.

Yn gywir,

**Dyfan Phillips**
PENNAETH
YSGOL PEN BARRAS

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129

***11.12.25***

***Dear Parents,***

*I would like to sincerely thank you all for supporting the Christmas concerts this week—it was lovely to see Bethania Chapel full for the Under 7 and 9 Units Services, and the school hall packed twice for the Under 5 Unit Show as well. The children gain so many valuable experiences through performing. I would also like to thank the staff for all their hard work in preparing. We now look forward to the Year 5 and 6 Christmas Show, which will be held in the school hall next Tuesday, December 16th at 2pm and again at 6.00pm.*

*A reminder to parents of Year 5 and 6 children that tickets are available to purchase on Parent Pay—please remember to purchase your tickets before the day.*

***School Christmas Lunch** – We had great fun celebrating Christmas as the children enjoyed the special meal today—gravy, turkey and sprouts—what could be better! Thank you for your support. It was lovely to see everyone in their Christmas jumpers too—real festive cheer!*

*Here are some of the school activities next week—a fun way to round off the busy term:*

***LAST WEEK OF TERM – Activities***

- *Monday, December 15th (pm): Year 4 children will visit Llys Awelon to sing carols and to socialise with the residents.*
- *Tuesday, December 16th: Under 12 Unit Christmas Show (details above)*
- *Wednesday, December 17th (morning): Magic Show for the children with Professor Llusern.*
- *Thursday, December 18th: School visit from the company 'Mulod Moel Famau'.*
- *Friday, December 19th: End of term.*
- *Monday, January 5th, 2026: Staff INSET day (School closed to pupils).*

***New Bobble Hats –** The company Brodwaith, Pentrefoelas has produced 100 official bobble hats for Ysgol Pen Barras, available from the office. Price: £10 each. You can order through Parent Pay. If we sell out before the end of term, we will look to get another supply early in the new year. Many thanks to the PTA for arranging this.*

***Carol yr Ŵyl-** – It was lovely to see yesterday afternoon's broadcast of the school choir singing the new carol 'Yr Anrheg Orau Un'—by Mrs Elin Owen and Mr Phillips—on the programme Prynhawn Da. Best of luck to the choir in the competition.*

***Parking** – It has come to our attention that a number of vehicles are parking in disabled bays at the start and end of the day. We kindly ask you to keep these spaces for blue badge holders only. Thank you in advance.*

*Yours sincerely,*

***Dyfan Phillips***
*Headteacher*
*Ysgol Pen Barras*